



Trawsnewid y Gweithlu ar gyfer Cymru Iachach



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Cynnwys

- 02** Pwy ydym ni

- 04** Sut rydyn ni'n gweithio

- 05** Ein cynlluniau

- 06** Adeiladu gweithlu heddiw ac yfory

- 08** Cefnogi gweithlu ffyniannus

- 10** Datblygu gweithlu ystwyth ac ymatebo

- 12** Cynllunio ar gyfer y dyfodol

- 13** Cysylltwch â ni



Pwy ydym ni

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw'r corff addysg a gweithlu statudol ar gyfer GIG Cymru. Wedi'i sefydlu yn 2018, rydym yn dod â chynllunio'r gweithlu, addysg a hyfforddiant ynghyd mewn un sefydliad cenedlaethol i adeiladu'r gweithlu medrus, cynaliadwy sydd ei angen heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn un o 12 corff statudol yn GIG Cymru, wedi'u sefydlu fel Awdurdod Iechyd Arbennig gyda Bwrdd unedol. Mae ein Cadeirydd, yn y llun ar y dde, Dr. Chris Jones CBE, yn cael ei benodi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar.



Sefydlwyd AaGIC i gyflawni effaith a gwelliannau ar y gweithlu y gellid eu cyflawni yn unig trwy ddull cenedlaethol, gan ganolbwyntio arbenigedd ac adnoddau arbenigol ar feysydd sy'n ychwanegu gwerth ac yn newid i fod yn weithlu cynaliadwy.

”

Alex Howells, Prif Weithredwr

Ein pwrpas

Rydym yn bodoli i ddatblygu gweithlu medrus a chynaliadwy sy'n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth.

Mae ein gwaith yn cwmpasu

- Cynllunio, comisiynu a darparu addysg a hyfforddiant.
- Arweinyddiaeth, diwylliant, a chynllunio olyniaeth.
- Strategaeth, cynllunio a deallusrwydd y gweithlu.
- Datblygu a thrawsnewid y gweithlu.
- Atyniad, gyrfaedd, ac ehangu mynediad.
- Cefnogaeth broffesiynol i'r proffesiwn pobl.

Mae tua 85% o'n cyllideb yn mynd yn uniongyrchol at addysg a hyfforddiant, gan ariannu gweithlu heddiw ac adeiladu gweithlu'r dyfodol. Yn 2026 ein cyllideb yw £397m.

Sut rydyn ni'n gweithio

Rydym yn gwybod bod newid parhaol yn digwydd mewn partneriaeth. Ein dull yw:



Canolbwyntio ar y person

Cadw cleifion, cymunedau a phrofiad staff wrth wraidd popeth a wnawn.



Cydweithredu

Gweithio gyda sefydliadau'r GIG, cyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, darparwyr addysg, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddeall heriau a chyd-ddylunio atebion.



Arwain gyda thystiolaeth

Defnyddio data a deallusrwydd y gweithlu i lunio penderfyniadau.



Canolbwyntio ar y dyfodol

Dynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor yn ogystal ag anghenion heddiw.



Ddwyeithog

Ymgorffori'r iaith Gymraeg ar draws ein gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau, gan sicrhau y gall staff a dysgwyr gael mynediad at gyfleoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ein cynlluniau

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan [Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#). Bob blwyddyn, rydym yn cynhyrchu dau gynllun allweddol:

- [Cynllun Tymor Canolig Integredig](#): Yn cyfuno amcanion trawsnewidiol, wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol, gyda chynlluniau i gyflawni busnes craidd yn effeithiol, gyda chefnogaeth cynllun adnoddau integredig.
- [Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2026 - 2027](#): niferoedd comisiynu y cytunwyd arnynt.

Mae'r ddau gynllun yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae partneriaid yn chwarae rhan annatod wrth ddatblygu a gweithredu'r ddau gynllun. Mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r GIG, Llywodraeth Cymru, y byd academiaidd, cyrff proffesiynol, a phartneriaid eraill i gefnogi cydweithio a goruchwylio.



Adeiladu gweithlu heddiw ac yfory

Rydym yn buddsoddi yn y gweithlu presennol a'r biblinell ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau bod GIG Cymru yn gallu diwallu anghenion iechyd a gofal esblygol.



Mae astudio nyrso yn Aberystwyth yn golygu fy mod i'n gallu hyfforddi'n lleol heb adael fy nghymuned.



Myfyriwr Nyrso

Mae ehangu'r cwrs i Wrecsam wedi newid hanes i ogledd Cymru, gan sicrhau cyflenwad cyson o nyrsys sydd wedi'u hyfforddi yn ein rhanbarth ac ar gyfer ein rhanbarth.



Rhanddeiliad y GIG, BIPBC

Cyflawniadau allweddol

Comisiynwyd 3,038 o leodd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cyn cofrestru (Hydref 2025), gan gyflawni cyfradd llenwi o 84%, a chynnal buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant.

Cefnogwyd ddatblygiad ôl-gofrestru ar gyfer 2,153 o ddysgwyr, gan gwblhau 2,638 o fodiwlau ar draws 787 o gyrsiau.

Gwell dysgu mewn gofal brys ac argyfwng, gyda 1,200 o ymweliadau â rhwydwaith Optimeiddio Llif Cleifion a mwy na 400 o fynychwyr mewn gweminarau rhyddhau cleifion.

Ehangu addysg iechyd menywod drwy 10 modiwl a lansiad canolfan genedlaethol, gyda thua 500 o ymgysylltiadau fesul modiwl yn ystod y mis cyntaf.

Datblygwyd strategaeth addysg hirdymor i gefnogi trawsnewid y gweithlu a gwella profiad dysgwyr.

Lansiwyd rhaglen ddiwygio addysg feddygol genedlaethol, gan gynnwys cynlluniau peilot sy'n cefnogi meddygon preswyl a meddygon a gyflogir yn lleol.

Cefnogi gweithlu ffyniannus

Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheoli talent yn seiliedig ar egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol a datblygu ymatebion ac atebion y gweithlu i greu diwylliannau sy'n helpu staff i ffynnu.

Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn fy sgiliau arweinyddiaeth, yn enwedig arweinyddiaeth dosturiol.

Cymrawd Arweinyddiaeth Glinigol



Mentrau ac effaith

Cryfhawyd sefydlogrwydd y gweithlu drwy Raglen Cadw Genedlaethol Staff Cymru Gyfan, gan leihau trosiant cyffredinol o 8.1% i 7.5%, ymddiswyddiadau gwirfoddol o 4.1% i 3.8%, a throsiant nyrsio o 7.2% i 5.8%.

Cryfhawyd llwybrau arweinyddiaeth drwy raglenni datblygu a ymgysylltodd â thua 300 o uwch arweinwyr a cefnogi dulliau arweinyddiaeth gynhwysol.

Porth arweinyddiaeth Gwella - denodd bron i 10,000 o ddefnyddwyr cofrestredig, gan ddarparu [cefnogaeth Adnoddau Arweinyddiaeth a Datblygiad Diwylliannol](#).

Casglodd arolwg staff GIG Cymru fewnwelediadau gan 34,645 o staff yn 2025/26 i lywio gwelliannau mewn lles, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol.

Mae cael Arweinwyr Cadw lleol wedi gwneud gwahaniaeth. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwranddo arnynt, ac mae timau'n fwy sefydlog.

Arweinydd Cadw



Datblygu gweithlu ystwyth ac ymatebol

Rydym yn arfogi staff gyda sgiliau newydd i addasu gwasanaethau a gwella gofal cleifion. Trwy ddarparu cyfleoedd dysgu hyblyg, cyfoes, rydym yn sicrhau bod staff yn gallu ymateb i anghenion sy'n newid a darparu canlyniadau gwell i gleifion.

Mentrau allweddol

Cyflwynwyd CODI, y system ddigidol integredig, i dros 10,000 o ddefnyddwyr er mwyn moderneiddio'r gwaith o reoli'r gweithlu ôl-raddedig.

Ehangwyd dysgu digidol drwy Y Tŷ Dysgu i dros 38,000 o ddefnyddwyr, gan ddarparu dros 400 o fodiwlau a 200 o ddigwyddiadau byw.

Cwblhawyd 5,651 o fodiwlau e-ddysgu fferylliaeth, gan gefnogi gwasanaethau clinigol estynedig gan gynnwys llwybrau Profi a Thrin Dolur Gwddf a heintiau'r llwybr wrinol (UTI).

Datblygwyd Cynllun Gweithlu Genomig ymhellach, gan sicrhau 20,000 o ymweliadau â dysgu ar-lein a 1,200 o gwblhadau, ochr yn ochr ag ehangu mynediad at fodiwlau MSc.

Cyflawnwyd y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol, gan sicrhau cynnydd net o 240 o staff, lleihau trosiant mewn seiciatryddion ymgynghorol (14.7% i 8.6%) a nyrsys (10.5% i 6.7%), a hyfforddi dros 5,000 o staff.

Lansiwyd Fframwaith Cymhwysedd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes Cymru Gyfan sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac a gafodd dderbyniad cadarnhaol yn genedlaethol.

Ehangwyd gallu digidol drwy'r Fframwaith Gallu Digidol, gyda dros 2,500 o hunanasesiadau wedi'u cwblhau.

Cyflwynwyd offer dysgu Deallusrwydd Artiffisial (AI), gan gynnwys HALI a'r Modiwl Sylfaen AI, gan ymgysylltu â dros 1,000 o ddefnyddwyr

Mae Y Ty Dysgu wedi dod yn lle gwerthfawr i mi ar gyfer addysg ar-lein o ansawdd uchel. Mae'n gwneud Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn hawdd ac yn ddifyr.

Nyrs GIG Cymru

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae gweithlu cynaliadwy yn dibynnu ar dystiolaeth, strategaeth a chydlyn, ac mae AaGIC yn darparu'r tri, gan lunio GIG Cymru nawr ac ar gyfer y dyfodol.



Cyflawniadau allweddol

Cryfhawyd deallusrwydd y gweithlu drwy'r Hyb Cynllunio'r Gweithlu, gan gynyddu cyfraddau cwblhau hyfforddiant o 137% ac ymgysylltiad â'r pecyn cymorth o 91%.

Datblygwyd cyflenwad y gweithlu a thrawsnewidiad ar draws meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys gofal sylfaenol, fferylliaeth, deintyddiaeth, iechyd meddwl, gwyddorau gofal iechyd ac arweinyddiaeth.

Sefydlu'r Grŵp Goruchwylio Cyflenwad y Gweithlu i wella'r aliniad rhwng cyflenwad hyfforddiant a galw am y gweithlu.

Datblygwyd Deoniaeth Gofal Sylfaenol i gryfhau ac uno cymorth ar gyfer trawsnewid y gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol.

Cysylltwch â ni



Rydyn ni yma i gysylltu, cydweithio ac ateb eich cwestiynau:



aagic.gig.cymru



03300 585005



heiw@wales.nhs.uk



Cofrestrwch i dderbyn diweddariadau a mewnwelediadau



[nhs-heiw](https://www.linkedin.com/company/nhs-heiw)



**Parchu pawb
Cydwethio fel tîm
Gwella drwy syniadau**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)